WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Arfon Jones
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Gogledd Cymru
Carl Foulkes
Prif Gwnstabl Gogledd Cymru
Glan Y Don
Ffordd Abergele
Bae Colwyn
LL29 8AW

**Cyfeirnod:** 1560A2019-20
Dyddiad cyhoeddi: 18 Tachwedd 2019

Annwyl Mr Jones a Mr Foulkes

## Llythyr Archwilio Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Gogledd Cymru

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Gogledd Cymru â'u cyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yw:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod eu hasedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiadau o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw golwg ar drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Corff i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad y cyfrifon.

## Rhoddais farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl hefyd ar 30 Gorffennaf 2019

Mae ccyrff yr Heddlu yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cyfrifon Cyrff Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Gorffennaf 2019 rhoddais farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl hefyd, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol pob corff.

Hysbyswyd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl am y materion allweddol a gododd o archwiliad y cyfrifon yn fy adroddiad ar Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 30 Gorffennaf 2019.

## Yr wyf yn fodlon bod gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl hefyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o'r trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar:

- y gwaith archwilio a wnaed ar y datganiad o gyfrifon;
- canlyniadau'r gwaith archwilio a gynhaliwyd ar systemau rheoli mewnol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fel yr adroddwyd yn y datganiadau Llywodraethu Blynyddol;
- canlyniadau gwaith blaenorol a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill megis Arolygydd Heddlu Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS)
- unrhyw waith arall, gan gynnwys yr hyn a wnaed drwy Archwiliad Mewnol, yr oeddwn yn ei ystyried yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

I ddibenion fy ngwaith fe wneuthum werthuso systemau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn erbyn nifer o gwestiynau. Disgrifir y dull hwn yn fanwl yn Atodiad 1. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes yna fylchau yn y trefniadau, y disgwylir iddynt fod yn eu lle, a beth yw arwyddocâd y bylchau hynny.

Mae ystyriaeth o'r atebion gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl i'r cwestiynau hyn wedi tynnu sylw at faes o arfer da gyda chreu Rhaglen Wella Gweithrediadau a Bwrdd Gwella Gweithrediadau yn erbyn cefndir o gyni a'r newidiadau a ganfuwyd mewn patrymau troseddu.

Sefydlwyd y Rhaglen Wella Gweithrediadau i adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd mewn nifer benodol o feysydd yn dilyn newidiadau mewn patrymau troseddu ac adborth o adolygiadau Arolygydd Heddlu Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub ynghyd ag effaith cyni. Cynhaliwyd modelu gweithredol ac ariannol manwl ar gyfer pob maes oedd yn cael ei adolygu, gan gyflwyno achosion busnes fel rhan o broses cynllunio cyllideb 2019-20, fydd yn cael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae llwyddiant y newidiadau hyn yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Gwella Gweithrediadau.

Yn ychwanegol at y gwaith hwn, rwyf yn cynnal darn o waith mwy manwl, yn adolygu'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ymgymryd â threfniadau gweithio ar y cyd rhwng heddluoedd yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a rhennir ein canfyddiadau gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gynnar yn 2020.

## Mae cyrff yr heddlu ar draws Cymru yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol

Mae lefelau cyllido yn dal i fod yn her sylweddol sy'n wynebu holl gyrff yr heddlu yng Nghymru ac mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau yn y tymor canol. Bydd setliad cyllid yr heddlu ar gyfer 2019-20 yn gweld setliad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cynyddu o 2.1%. Yn 2018-19, cynhyrchodd grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd warged ar ddarparu gwasanaethau o £0.044 miliwn.

Ar gyfer 2019-20, mae'r grŵp yn amcangyfrif y bydd yn adrodd am warged ar ddarpariaeth gwasanaethau o £0.145 miliwn ac mae wedi nodi pwyntiau gwasgu pellach yn dod o alw ychwanegol am wasanaethau, costau goramser a chostau TG.

Er mwyn ymateb i'r pwysau hyn, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ble i ddyrannu adnoddau prin ac ystyried ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Yn eu cynllun ariannol tymor canol maent wedi nodi'r targedau a'r arbedion canlynol i gyrraedd y targedau hynny am y cyfnod o 2019-20 i 2023-24:

- Rhaglen wella weithredol £3.6 miliwn;
- Adolygiadau digidol £1.25 miliwn; a
- Swyddfa gefn a gwasanaethau cymorth £1.5 miliwn.

Fel rhan o'i gynllun tymor canol, mae'r corff yn disgwyl defnyddio £14 miliwn o'i gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ac a glustnodwyd.

Mae cronfeydd wrth gefn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi gostwng £17 miliwn ers 2016-17. Mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn cynrychioli 15% o gost net gwasanaethau, y mae 12.5% ohonynt wedi eu clustnodi ar gyfer dibenion penodol.

Mae ystyried balansau cronfeydd wrth gefn yn ofalus a sut y gellid eu defnyddio i gynorthwyo cynlluniau ariannol yn neilltuol o bwysig gan nad yw'n gynaliadwy i ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gynnal costau sy'n mynd ymlaen yn barhaus. Unwaith mae cronfeydd wrth gefn wedi cael eu dileu, rhaid canfod ffynonellau ariannol eraill neu arbedion. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn mewn ffordd gynlluniedig yn hytrach nag ar gyfer cynorthwyo gyda chostau parhaus.

**Rhoddais dystysgrifau yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi cael eu cwblhau ar 30 Gorffennaf 2019**

Ni dderbyniais gwestiynau na gwrthwynebiadau gan etholwyr ynghylch archwiliad 2018-19. Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a dod i gasgliad ynghylch y trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau, roeddwn yn gallu tystio bod archwiliad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl hefyd wedi'i gwblhau pan gyhoeddais fy marn archwilio.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2018-19 fod yn fras yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

pp **Derwyn Owen**
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 1

## Y meini prawf ar gyfer asesu'r trefniadau ar gyfer sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Arddangosyn 1: meini prawf ar gyfer asesu'r trefniadau

| Trefniadau rheoli perfformiad a rheoli cyllid corfforaethol | Cwestiynau ar y trefniadau |
|---|---|
| **Sefydlu amcanion, pennu polisi a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer gosod, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi sianelu cyfathrebu ar waith gyda'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro ar waith i sicrhau bod negeseuon allweddol ynghylch gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, er mwyn nodi amrywiaethau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, cymryd camau gweithredu pan fydd angen ac adrodd i'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Cydymffurfio â pholisïau sefydledig** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheoli mewnol gadarn, gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes sylweddol? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni wrth ddefnyddio adnoddau? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod yr hyn y mae'n ei wario'n cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, cymryd camau unioni pan fydd yn briodol, ac ar gyfer adrodd y canlyniadau i'r uwch-reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |

| Trefniadau rheoli perfformiad a rheoli cyllid corfforaethol | Cwestiynau ar y trefniadau |
|---|---|
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, er mwyn nodi amrywiaethau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol ar gyfer cymryd camau gweithredu? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb wrth gyflawni ei fusnes? |